

Rhif: WG30834



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Newid trefn arolygu bresennol Estyn

Dyddiad cyhoeddi: 30 Mehefin 2017

Newid trefn arolygu bresennol Estyn

Cynulleidfa	Ysgolion, awdurdodau lleol, rhanbarthau consortia, awdurdodau esgobaethol, Estyn, undebau athrawon ac eraill â diddordeb.
Trosolwg	Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ar newid trefn arolygu bresennol Estyn a gyhoeddwyd ar 1 Mawrth 2017. Dim.
Camau gofynnol Rhagor o wybodaeth	Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen at: Y Gangen Cyllid ac Arolygu Ysgolion Y Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ e-bost: Addysg- CynllunioBusnesaLlywodraethiant@cymru.gsi.gov.uk mailto:
Copïau ychwanegol	Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgyngoriadau
Dogfennau cysylltiedig	<i>Newid trefn arolygu bresennol Estyn (2017)</i> Dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Crynodeb o'r ymatebion	3
Cwestiwn 1	3
Cwestiwn 2	4
Cwestiwn 3	5
Cwestiwn 4	5
Cwestiwn 5	6
Cwestiwn 6	7
Cwestiwn 7	7
Atodiad: Rhestr o'r ymatebwyr	9

Cyflwyniad

Mae Estyn wedi cynnal ymgynghoriad blaenorol ar newidiadau arfaethedig i'r ffordd y mae'n arolygu addysg a hyfforddiant o fis Medi 2017. Fel rhan o'r adolygiad hwnnw, mae meysydd wedi'u nodi lle byddai rhai mân newidiadau i reoliadau a chanllawiau statudol yn cefnogi a sbarduno gwelliannau drwy waith arolygu

Yn sgil hynny, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 1 Mawrth a 12 Ebrill 2017 ar y newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau i ddiwygio amseriad cyfarfodydd cyn arolygu ysgolion gyda rhieni a lleihau'r amser sydd gan yr awdurdod lleol i baratoi datganiad ysgrifenedig o'r camau gweithredu wedi'r arolygiad. Hefyd, gofynnwyd am farn pobl ar ddiwygio a diweddarau dogfen canllawiau statudol 202/2016 Llywodraeth Cymru, Ysgolion sy'n Achosi Pryder.

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i gwestiynau penodol a ofynnwyd ac yn amlinellu'r ffordd arfaethedig ymlaen.

Crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd naw ymateb i'r ymgynghoriad. Mae rhestr lawn o'r ymatebwyr ar gael yn Atodiad 1.

Cwestiwn 1

A ddylid newid amseriad cyfarfodydd cyn arolygu ysgolion gyda rhieni/gofalwyr fel y gall y tîm arolygu deilwra'r broses arolygu i ddiwallu anghenion ysgolion unigol a gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o amser y tîm arolygu yn yr ysgol?

Dylid	Na ddylid	Ddim yn siŵr	Dim sylw	Cyfanswm
6	1	2	0	9
67%	11%	22%	0%	100%

Dadansoddiad cryno

Roedd y mwyafrif o blaid y cynnig hwn, a chafwyd sylwadau i ategu eu barn. Roedd y rhan fwyaf yn croesawu'r ffaith y byddai'r cynnig yn caniatáu mwy o hyblygrwydd o fewn y broses arolygu ac yn gyfle i'r arolygwyr wneud defnydd mwy effeithlon o'u hamser.

Gofynnodd un ymatebydd i Lywodraeth Cymru fonitro'r broses o weithredu'r newid a'i effaith ar arolygiadau ac ysgolion.

Nid oedd un ymatebydd yn cefnogi'r cynnig, gan deimlo nad oedd y sail resymegol dros newid yn un cryf iawn – a phe bai'r cyfarfod yn cael ei gynnal ar ôl i'r arolygiad gychwyn, gall fod yn gyfle i'r rhieni holi a stilio arolygwyr ar unrhyw safbwyntiau cychwynnol sydd ganddynt o'r ysgol, neu y gallai'r arolygwyr rannu'r safbwyntiau hynny cyn eu dilysu'n iawn, gan arwain at berygl i'r rhieni ddod i gasgliad camarweiniol. Hefyd, os caiff cyfarfod ei gynnal ar yr ail ddiwrnod, yna mae hynny'n cael ei ystyried yn gynnar yn y broses, rhywbeth sy'n groes i'r farn y dylai'r arolygydd fod wedi gwneud cryn gynnydd erbyn ail ddiwrnod yr arolygiad.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Gan fod y mwyafrif o blaid y cynnig hwn, bydd y rheoliadau'n cael eu diwygio er mwyn rhoi rhagor o hyblygrwydd i arolygwyr o ran amseriad y cyfarfodydd rhieni. Yn ystod llawer o arolygiadau, mwy na thebyg y bydd llawer o gyfarfodydd yn cael eu cynnal ar ddechrau'r broses fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Ond, os bydd angen cynnal cyfarfod yn ddiweddarach, o fewn dau ddiwrnod cyntaf yr arolygiad, er mwyn bodloni gofynion yr ysgolion unigol a gwneud y defnydd gorau o amser yr arolygwyr, yna bydd gan y tîm arolygu'r hyblygrwydd i wneud hynny. O ran monitro effaith y newidiadau, bydd Llywodraeth Cymru'n gofyn am adborth gan Estyn i hynny, flwyddyn ar ôl i'r newidiadau gael eu rhoi ar waith.

Cwestiwn 2

A ddylid newid yr amserlen ar gyfer datganiad gweithredu yr awdurdod lleol fel y gall pob ochr gydweithio'n well a gweithio'n gyflymach i gynllunio a chefnogi gwelliannau?

Dylid	Na ddylid	Ddim yn siŵr	Dim sylw	Cyfanswm
4	3	2	0	9
45%	33%	22%	0%	100%

Dadansoddiad cryno

Cymysg fu'r ymateb i'r cynnig hwn, gyda 4 ymatebydd o blaid y cynnig a 5 naill ai ddim yn cytuno neu ddim yn siŵr.

Roedd yr ymatebwyr o blaid y cynnig yn teimlo y byddai'n gwella cydweithio ac yn fodd i weithio'n gyflymach a chefnogi gwelliannau. Roedden nhw'n teimlo gorau po gyntaf y mae'r ysgolion mewn sefyllfa i weithredu a datblygu gwelliannau yn dilyn yr arolygiad, er lles plant a phobl ifanc.

I'r ymatebwyr ansicr, teimlwyd nad oedd rheswm digon clir dros newid, a bod 10 diwrnod yn amser rhesymol.

Roedd yr ymatebwyr a oedd yn erbyn y cynnig, yn teimlo bod perygl o ruthro'r broses ac y byddai'r awdurdod lleol yn esgeuluso'r meysydd cymorth hanfodol oedd eu hangen, gan arwain at gynlluniau heb eu hystyried yn iawn, neu gynlluniau anaddas i'r diben a bod angen eu hailweithio. Awgrymwyd bod yr amserlen 10 diwrnod gyfredol eisoes yn her i awdurdodau lleol a bod angen i unrhyw amserlenni a orfodir ystyried problemau logisteg o ran dod â'r holl bartïon allweddol at ei gilydd i drafod gwelliannau.

Roedd ymatebydd arall yn teimlo nad oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y trefniadau presennol yn rhwystro cynnydd ac nad oes unrhyw asesiad o allu awdurdodau lleol i fodloni'r gofyniad diwygiedig.

Cafwyd sylw arall am ddarpariaethau adran 40(3)(b) o Ddeddf Addysg 2005 sy'n rhoi'r grym i Weinidogion Cymru osod cyfnod byrrach i baratoi datganiad ysgrifenedig, os ydynt o'r farn bod angen cyfnod byrrach ar gyfer achos brys, ac nad oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod hwn wedi'i ddefnyddio neu ei angen ym mhob achos.

Roedd un ymatebydd yn teimlo y dylai awdurdodau lleol anelu at amserlen 5 diwrnod, er na ddylai fod yn ofyniad statudol. Hefyd, awgrymodd rhywun arall pe bai'r newid yn cael ei weithredu, yna gall fod adegau weithiau pan na fyddai awdurdodau lleol yn bodloni'r gofynion oherwydd amgylchiadau annisgwyl, ac y dylid defnyddio rhywfaint o synnwyr cyffredin bryd hynny.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Yn sgil yr ymatebion, er ein bod yn cytuno â'r cynnig mewn egwyddor, mae Llywodraeth Cymru yn ofalus i beidio â chreu newid rheoliadol ond yn hytrach cryfhau'r canllawiau statudol Ysgolion sy'n Achosi Pryder sy'n pwysleisio pwerau Gweinidogion Cymru i lywio cyfnod byrrach os oes angen ac argymell er mai 10 diwrnod yw'r amserlen statudol ar gyfer

cynhyrchu'r datganiad ysgrifenedig, ei bod hi'n arfer da i awdurdodau lleol anelu at gynhyrchu datganiad mewn 5 diwrnod.

Cwestiwn 3

A ddylid diwygio'r geiriad ym mharagraffau 7.23 a 7.26 y canllawiau *Ysgolion sy'n achosi pryder* (Llywodraeth Cymru, 2016) i adlewyrchu'r newid yn yr amser a ganiateir i lunio cynllun gweithredu ar ôl arolygiad yr awdurdod lleol?

Dylid	Na ddylid	Ddim yn siŵr	Dim sylw	Cyfanswm
5	1	3	0	9
56%	11%	33%	0%	100%

Dadansoddiad cryno

Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r geiriad ym mharagraffau 7.23 a 7.26 y Canllawiau Ysgolion sy'n Achosi Pryder sy'n adlewyrchu'r ffaith y bydd Estyn yn cyflwyno mwy o hyblygrwydd i'r broses o fonitro ysgolion sy'n achosi pryder.

Roedd un ymatebydd, a oedd ddim yn siŵr, eisiau rhagor o wybodaeth i esbonio pam mae angen newid.

O ran yr ymatebydd nad oedd yn cefnogi'r geiriad, awgrymodd fod yna fwy o bwyslais ar sicrhau bod arolygiadau'n fwy cyfleus i Estyn yn hytrach na gwella'r broses, a dywedodd nad yw'n glir sut fyddai'r newidiadau i'r broses yn helpu ysgolion i adael y categori statudol, ei fod yn gwneud y system fonitro yn llai clir, ac yn caniatáu gormod o ddisgresiwn i Estyn o ran pryd mae'n ymweld ag ysgol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Gan fod mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi'r geiriad arfaethedig, bydd newidiadau i'r canllawiau yn cael eu gwneud yn yr un modd. Nid yw'r geiriad yn effeithio ar amseriad datganiad ysgrifenedig yr awdurdodau lleol, ond yn adlewyrchu'r newidiadau y bydd Estyn yn eu gwneud i drefniadau arolygu er mwyn i ddarparwyr dilynol gael mwy o gymorth hyblyg i'w helpu i wneud newidiadau cadarnhaol yn gynt. Bydd Estyn yn sicrhau bod adnoddau arolygu'n cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol er mwyn helpu i gefnogi gwelliannau mewn ysgolion.

Cwestiwn 4

Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu eich barn ar ddiweddarau'n gyffredinol y canllawiau *Ysgolion sy'n achosi pryder*. Wrth roi eich sylwadau, cofiwch nodi'r adran a rhifau'r paragraffau yn y canllawiau rydych chi'n cyfeirio atynt.

Dadansoddiad cryno

Cyflwynodd ymatebwyr nifer o awgrymiadau/newidiadau i'r geiriad gydol y canllawiau.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r rhan fwyaf o'r awgrymiadau wedi'u derbyn a bydd newidiadau'n cael eu gwneud fel a ganlyn:

- Pwysleisio y dylai'r gwaith ar gynllun gweithredu ysgolion ddechrau cyn gynted ag y mae'r ysgol yn deall ei fod yn destun pryder.

- Nodi'n glir y dylai ysgolion ac awdurdodau lleol fod yn cydweithio'n brydlon ar eu cynlluniau.
- Tynnu sylw at y ddarpariaeth sydd ar gael a chynnwys y broses dan sylw er mwyn i Weinidogion Cymru allu cyfeirio cyfnod byrrach i awdurdodau lleol baratoi datganiad ysgrifenedig.
- Er mai 10 diwrnod yw'r amserlen statudol ar gyfer cynhyrchu datganiad ysgrifenedig awdurdod lleol, argymhell ei bod hi'n arfer da i awdurdodau anelu at gynhyrchu datganiad mewn 5 diwrnod er mwyn sicrhau gwelliannau cyflymach.
- Nodi na fyddai athro newydd gymhwyso o bosib yn treulio ei gyfnod ymsefydlu mewn ysgol ar fesurau arbennig.
- Ategu'r neges ynglŷn â'r defnydd o bwerau ymyrryd a chyfathrebu Gweinidogion Cymru ag awdurdodau lleol, os yw ysgol wedi bod dan fesurau arbennig am 2 flynedd a bod y cynnydd wedi bod yn rhy araf.
- Adlewyrchu hyblygrwydd trefniadau monitro Estyn.
- Yn achos ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr sydd mewn categori statudol, bydd y cyrff esgobaethol perthnasol hefyd yn derbyn copi o'r adroddiad ar gynnydd yn dilyn ymweliad monitro Estyn.
- Adlewyrchu argymhellion adroddiad Donaldson 'Dyfodol Llwyddiannus' ynghylch mesurau atebolrwydd pan gânt eu rhoi ar waith, a sut i nodi ysgolion sy'n peri pryder.
- Egluro rolau a chyfrifoldebau'r partion dan sylw a phwysleisio'r ffaith mai awdurdodau lleol sydd â chyfrifoldebau statudol dros ymyrryd mewn ysgolion.
- Esbonio'r hyn a olygir wrth ddefnydd deallusol o ddata.
- Egluro'r broses o gwyno i Weinidogion Cymru os yw ysgol yn teimlo bod hysbysiad rhybudd wedi'i gyflwyno'n amhriodol.
- Newid ambell air ac egluro'n well mewn manau.

Cwestiwn 5

Hoffem wybod eich barn ar yr effaith y byddai'r newidiadau arfaethedig yn ei chael ar y Gymraeg, yn benodol ar:

- Gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**
- peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi?

Sut y gellid cynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

Dadansoddiad cryno

Ni chafwyd unrhyw sylwadau gan bump o'r ymatebwyr. Roedd dau o'r farn na fyddai'r cynigion yn cael unrhyw effaith o gwbl ar y Gymraeg. Roedd dau arall yn teimlo y gallai disgwyl i awdurdodau lleol lunio cynlluniau gweithredu mewn cyfnod mor fyr, effeithio ar y gallu i greu fersiynau dwyieithog o'r cynlluniau hyn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Gan gyfeirio at yr ymateb yng nghwestiwn 2, ni fydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno newid rheoliadol i leihau'r cyfnod o amser i baratoi datganiadau gweithredu awdurdodau lleol. Er hynny, bydd yn pwysleisio yn y canllawiau Ysgolion sy'n Achosi Pryder ei bod hi'n arfer da i awdurdodau lleol anelu at gynhyrchu datganiad mewn 5 diwrnod.

Cwestiwn 6

Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn:

- i) cael effeithiau positif neu fwy o effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dadansoddiad cryno

Ni ddarparodd 7 ymatebydd unrhyw sylwadau i'r cwestiwn hwn. Dywedodd un ymatebydd na fyddai'r polisi arfaethedig yn cael effaith bositif na negatf ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Roedd un arall yn teimlo nad oes angen newid y cynigion, ond awgrymodd y dylid rhoi ystyriaeth bellach i hyfforddi'r gweithlu cyfan er mwyn helpu i sicrhau eu bod wedi'u grymuso i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Cafodd ystyriaethau'r iaith Gymraeg eu hystyried yn llawn wrth greu'r polisi hwn. Ni chodwyd unrhyw faterion neu broblemau lle byddai angen newid y polisi o safbwynt y Gymraeg.

Cwestiwn 7

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Dadansoddiad cryno

Ni chafwyd unrhyw sylwadau gan chwe ymatebydd.

Roedd un ymatebydd yn poeni bod y cyfnod rhybudd ar gyfer arolygu ysgolion wedi ei fyrhau, a oedd yn achosi problemau i awdurdodau esgobaethol gynnal arolygiadau cyfamserol ar gyfer ysgolion ffydd a/neu drefnu i swyddogion esgobaethol fod yn bresennol yn sesiynau adborth arolygiadau Estyn. Dan ddeddfwriaeth gyfredol, nid yw ysgol eglwys wedi'i harolygu'n llawn hyd nes bod y ddau arolygiad wedi'u cwblhau.

Roedd un ymatebydd yn poeni am fethiant Estyn i gydnabod bod y bwriad i newid ystyr dyfarniad 'digonol' i 'digonol, angen gwella' i ddynodi methiant, yn sarhaus i waith caled ac ymdrechion gweithlu'r ysgol.

Cyfeiriodd ymatebydd arall at y diwygiadau ym myd Addysg, gan deimlo bod angen adolygiad a gwerthusiad parhaus o Estyn. Gofynnodd yr ymatebydd a yw'r prosesau arolygu yn gweithio i'r ysgolion hynny sydd mewn categori statudol ac a yw'r system yn cyd-fynd â pholisïau gwella ysgolion allweddol eraill. Awgryma'r ymatebydd fod angen i Estyn a'r broses arolygu weithredu mewn ffordd gwbl wahanol er mwyn profi ei fod yn addas i'r diben.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Estyn a chyfraniad y corff hwnnw yn hanfodol er mwyn cyflwyno ein hagenda diwygio addysg yn llwyddiannus. Mae Estyn yn cefnogi cyfeiriad Dyfodol Llwyddiannus, ac yn gysylltiedig iawn ag agweddau amrywiol datblygu'r cwricwlwm. Hoffai'r Arolygiaeth sicrhau bod arolygiadau'n addas i'r diben a'u bod yn gymesur, yn hyblyg, yn gost-effeithiol ac wedi'u symleiddio. Dyna pam mae Estyn yn newid ei drefniadau arolygu er mwyn helpu i lywio gwelliannau a chefnogi arloesi.

Gan mai corff annibynnol yw Estyn, dylid cysylltu'n uniongyrchol â'r Arolygiaeth gydag unrhyw ymholiadau neu bryderon.

Atodiad: Rhestr o'r ymatebwyr

1. Estyn
2. NUT Cymru
3. Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig
4. ATL Cymru
5. Cyngor y Gweithlu Addysg
6. UCAC
7. ASCL Cymru
8. NASUWT Cymru
9. NAHT Cymru